OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3279 (Cy.317)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Tor-faen (Newidiadau Etholiadol) 2002

*Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion yn Rhagfyr 1999 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Tor-faen. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion (gyda rhai addasiadau) yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Tor-faen (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "adran etholiadol" ("electoral division") yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Tor-faen fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Tor-faen 1994(**2**);

**Adrannau etholiadol**

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Bwrdeistref Sirol Tor-faen a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Tor-faen 1994 wedi'u diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Bwrdeistref Sirol Tor-faen, rhennir y fwrdeistref sirol honno yn 24 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

**Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol**

**3.** Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

6 Rhagyfr 2002

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol bwrdeistref sirol Tor-faen

| (1) Enw'r Adran Etholiadol | (2) Ardal yr Adran Etholiadol | (3) Y nifer o gynghorwyr |
|---|---|---|
| Abersychan | Cymuned Abersychan | 3 |
| Blaenafon | Cymuned Blaenafon | 3 |
| Bryn-wern | Ward Bryn-wern yng Nghymuned Llanfihangel Pont-y-moel | 1 |
| Coed Efa | Ward Coed Efa yng Nghymuned Fairwater | 1 |
| Gogledd Croesyceiliog | Ward Gogledd Croesyceiliog yng Nghymuned Croesyceiliog | 2 |
| De Croesyceiliog | Ward De Croesyceiliog yng Nghymuned Croesyceiliog | 1 |
| Cwmynysgoi | Ward Cwmynysgoi yng Nghymuned Llanfihangel Pont-y-moel | 1 |
| Fairwater | Ward Fairwater ac Oaksford yng Nghymuned Fairwater | 2 |
| Greenmeadow | Ward Greenmeadow yng Nghymuned Fairwater | 2 |
| Llantarnam | Cymuned Llantarnam ac ward Southville yng Nghymuned Cwmbrân Canolog | 2 |
| Gogledd Llanyrafon | Ward Gogledd Llanyrafon yng Nghymuned Llanyrafon | 1 |
| De Llanyrafon | Cymuned Pont-hir ac ward De Llanyrafon yng Nghymuned Llanyrafon | 1 |
| New Inn | Cymuned New Inn | 3 |
| Panteg | Cymuned Panteg | 3 |
| Pontnewydd | Cymuned Pontnewydd ac ward Northville yng Nghymuned Cwmbrân Canolog | 3 |
| Pontnewynydd | Ward Pontnewynydd ng Nghymuned Pen Transh | 1 |
| Pont-y-pŵl | Ward Pont-y- pŵl yng Nghymuned Llanfihangel Pont-y-moel | 1 |

| **(1)**<br>**Enw'r Adran Etholiadol** | **(2)**<br>**Ardal yr Adran Etholiadol** | **(3)**<br>**Y nifer o gynghorwyr** |
|---|---|---|
| Snatchwood | Ward Snatchwood yng Nghymuned Pen Transh | 1 |
| St Cadocs a Phen-y-garn | Ward St Cadocs a Phen-y-garn yng Nghymuned Trefddyn | 1 |
| Llanfihangel Llantarnam | Ward Llanfihangel Llantarnam yng Nghymuned Cwmbrân Canolog | 2 |
| Trefddyn | Ward Trefddyn yng Nghymuned Trefddyn | 2 |
| Two Locks | Ward Two Locks yng Nghymuned Cwmbrân Canolog ac yng Nghymuned Henllys | 3 |
| Cwmbrân | Cymuned Cwmbrân Uchaf | 3 |
| Waunfelin | Ward Waunfelin yng Nghymuned Pen Transh | 1 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eiu heffaith (gyda rhai addasiadau) i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn Hydref 1999 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Tor-faen.

Er bod y Gorchymyn yn diddymu'r holl adrannau etholiadol presennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif yn aros yr un fath.

Nid oes unrhyw newid i adrannau **Abersychan, Blaenafon, Bryn-wern, Coed Efa, Gogledd Croesyceiliog, De Croesyceiliog, Cwmynysgoi, Fairwater, Greenmeadow, Llantarnam, Gogledd Llanyrafon, De Llanyrafon, Pant-eg, Pontnewydd, Pontnewynydd, Pont-y-pŵl, Snatchwood, St Cadocs a Phen-y-garn, Llanfihangel Llantarnam, Trefddyn, Two Locks, Cwmbrân, Waunfelin.**

Er hynny bydd adrannau presennol New Inn Isaf a New Inn Uchaf yn cael eu cyfuno i ffurfio etholaeth adran etholiadol **New Inn.** Bydd yn cynnwys Cymuned New Inn ac yn cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd.